| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **16 Mawrth 2026** |
| TEITL: | **CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| PWRPAS: | **I gymeradwyo’r Cynllun Busnes** |
| ARGYMHELLIAD: | **CYMERADWYO’R CYNLLUN BUSNES** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi diweddaru ei Gynllun Busnes ac eisiau derbyn cymeradwyaeth gan y pwyllgorau unigol o fewn y bartneriaeth.

Mae'r Cynllun Busnes wedi cael ei gyflwyno i chi yn flynyddol, ond mae'r cynllun eleni yn gynllun busnes trosiannol ar gyfer blwyddyn gyntaf IM Co pan fydd yn weithredol. Bydd y ddogfen hon yn cael ei monitro, ei hadolygu a'i chytuno yn ffurfiol yn flynyddol.

Cymeradwywyd y Cynllun Busnes gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar 10 Mawrth 2026.

## 2. TREFNIADAU NEWYDD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Yr Awdurdodau Cyfansoddol yw cyfranddalwyr a chleientiaid y Cwmni Rheoli Buddsoddiadau (WPP IM Co), cwmni annibynnol a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Mae gan WPP IM Co ei gynllun busnes a'i gyllideb ar wahân (eitem nesaf ar yr agenda hon).

Mae rôl newydd y Bartneriaeth yn cynnwys goruchwylio WPP IM Co fel cyfranddalwyr a chleientiaid, yn ogystal â pharhau i weithredu agweddau ar y Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026.

## 3. CYNLLUN BUSNES

Mae cynllun busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru yn manylu ar sut mae’r bartneriaeth yn mynd i gyflawni ei nodau. Pwrpas y cynllun busnes yw:

- Esbonio cefndir a strwythur llywodraethu’r PPC
- Amlinellu blaenoriaethau ac amcanion Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod perthnasol y Cynllun Busnes

Darperir gwybodaeth o ran llywodraethu, rheoli risg, amcanion, credoau, polisïau, cynllun gwaith a chyllideb ar gyfer 2026-27.

Mae'r Cynllun Busnes ynghlwm ar gyfer eich adolygiad yn Atodiad 1.

## 3. ARGYMHELLIAD

Bod y Cynllun Busnes yn cael ei gymeradwyo.